AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Canlyniadau cerdded ac olwyno, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio ar droed neu ar olwynion. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am sut mae pobl yn teithio, a'u barn a'u hagweddau tuag at gerdded ac olwyno.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau'n codi oherwydd bod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer arolwg, gan fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pawb i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Rydym yn amcangyfrif bod 17.5% o deithiau y pen y flwyddyn wedi'u gwneud drwy gerdded ac olwyno.
- Dywedodd 69.2% o ymatebwyr eu bod yn cerdded neu'n olwyno o leiaf unwaith yr wythnos.
- Dywedodd 17.9% o ymatebwyr nad oeddent wedi cerdded nac olwyno o gwbl yn y deuddeg mis diwethaf.
- Roedd 93.3% o deithiau ar droed ac ar olwynion wedi cael eu gwneud gan y 69.2% o ymatebwyr a oedd yn cerdded neu'n olwyno o leiaf unwaith yr wythnos.
- Roedd 85.7% o bobl a oedd yn cerdded ac yn olwyno naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar eu taith gyffredinol.
- "Llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" oedd y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog pobl sydd eisoes yn cerdded ac yn olwyno i wneud hynny'n amlach (37.7%).

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio a ddefnyddir yn llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o Ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n dod i 100%.

Amlder teithio ar droed neu ar olwynion

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio ar droed neu ar olwynion yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi cerdded neu olwyno yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir drwy gerdded ac olwyno.

- Dywedodd 69.2% o ymatebwyr eu bod yn cerdded ac olwyno o leiaf unwaith yr wythnos (40.0% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 19.3% sawl gwaith a 9.9% unwaith yr wythnos).
- Roedd 12.2% o ymatebwyr yn teithio ar droed neu ar olwynion yn anaml, gyda 6.6% yn dweud eu bod yn cerdded neu'n olwyno unwaith neu ddwy y mis, 3.1% unwaith bob ychydig fisoedd, a 2.6% unwaith neu ddwy yn ystod y flwyddyn.
- Dywedodd 17.9% o ymatebwyr nad oeddent yn cerdded nac yn olwyno o gwbl.

Cerdded ac olwyno: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi cerdded neu olwyno dros y deuddeg mis diwethaf, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cerdded ac olwyno yn aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Mae 69.2% o ymatebwyr yn cerdded neu olwyno'n aml, a 12.2% o ymatebwyr yn gwneud hynny'n anaml. Dywedodd 17.9% o ymatebwyr nad oeddent yn cerdded nac yn olwyno o gwbl.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Statws anabledd

Nododd 62.3% o ymatebwyr anabl eu bod yn cerdded ac olwyno o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 71.0% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl. Roedd gwahaniaeth o 10.6 pwynt canran mewn cerdded ac olwyno y rhan fwyaf o ddiwrnodau (31.5% yn anabl, 42.1% ddim yn anabl). Dim ond mân wahaniaethau a welwyd yn yr amleddau eraill.

Rhanbarthau

Dywedodd llai o ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru eu bod yn cerdded ac olwyno o leiaf unwaith yr wythnos nag mewn rhanbarthau eraill – 63.3% yng Nghanolbarth Cymru o'i gymharu â 68.0% yng Ngogledd Cymru, 68.2% yn Ne-orllewin Cymru a 71.0% yn Ne-ddwyrain Cymru.

Grŵp oedran

Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cerdded ac yn olwyno o leiaf unwaith yr wythnos wedi gostwng wrth i'r grwpiau oedran gynyddu. Roedd 83.3% o'r unigolion 16-24 oed yn cerdded ac yn olwyno o'i gymharu â 46.3% o unigolion 85 oed neu hŷn.

Cyfran o'r prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf o fewn taith. Y gyfran o'r prif ddull teithio yw canran y teithiau y pen y flwyddyn sy'n cael eu cwblhau drwy brif ddull penodol.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod ymatebwyr wedi gwneud 109.4 taith y pen flwyddyn ar droed ac ar olwynion.

- Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif bod 17.5% o deithiau wedi cael eu gwneud ar droed ac ar olwynion. Dyma'r ail ddull teithio a ddefnyddir amlaf, ar ôl car (74.3%). Roedd teithiau cerdded ac olwyno yn cyfrif am fwyafrif sylweddol o deithiau llesol (92.6%).
- Preswylwyr Canolbarth Cymru wnaeth y gyfran fwyaf o deithiau drwy gerdded ac olwyno (19.2%), ac yna preswylwyr De-ddwyrain Cymru (18.9%) a De-orllewin Cymru (17.5%). Ymysg y rheini sy'n byw yng Ngogledd Cymru, dim ond 14.3% o deithiau a wnaed drwy gerdded ac olwyno.
- Roedd preswylwyr ardaloedd gwledig yn gwneud 12.9% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno, sy'n llawer is na'r 19.4% o deithiau a wnaed drwy gerdded ac olwyno ymysg preswylwyr trefol.

Cerdded ac olwyno: Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhanbarth

Ffigur 2: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn drwy gerdded ac olwyno, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau, y pen y flwyddyn, yn ôl y rhai sy'n cerdded ac olwyno. Roedd 19.2% o deithiau yng Nghanolbarth Cymru ac 18.9% o deithiau yn Ne-ddwyrain Cymru wedi cael eu gwneud ar droed ac ar olwynion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (17.5%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r dull teithio yn ôl amlder teithio

- Mae pobl sy'n teithio ar droed ac ar olwynion yn rheolaidd (y rheini sy'n cerdded neu olwyno o leiaf unwaith yr wythnos) yn cyfrif am 69.2% o ymatebwyr ond yn ffurfio 93.3% o'r holl deithiau ar droed ac ar olwynion. Roedd pobl sy'n teithio ar droed ac ar olwynion yn rheolaidd yn gwneud 23.4% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno (147.6 taith y pen y flwyddyn).
- Nodwyd nad oedd 12.2% o ymatebwyr wedi'u nodi'n bobl sy'n teithio ar droed ac ar olwynion yn rheolaidd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gwneud 5.6% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno (37.0 taith y pen y flwyddyn) ac yn cyfrif am 4.1% o'r holl deithiau cerdded ac olwyno.
- Dywedodd grŵp sylweddol (17.9% o ymatebwyr) nad oeddent yn cerdded nac yn olwyno o gwbl. Roedd y grŵp hwn yn ffurfio tua 2.4% o gyfanswm y teithiau cerdded ac olwyno.
- Rydym yn gweld perthynas agos, wrthdro rhwng cerdded ac olwyno a theithio mewn car. Roedd ymatebwyr a oedd yn cerdded ac yn olwyno yn aml yn gwneud 23.4% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno, a 66.6% o deithiau mewn car (naill ai fel gyrrwr neu fel teithiwr). Mewn cymhariaeth, roedd ymatebwyr nad oeddent yn cerdded nac yn olwyno yn aml yn gwneud 90.1% o'u teithiau mewn car, ac roedd y rheini nad ydynt yn cerdded nac yn olwyno yn gwneud 94.4% o'u teithiau mewn car.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn graddio amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae Cwintel 1 (C1) yn cynnwys 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Cwintel 5 (C5) yn cynnwys 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn diffinio amddifadedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Roedd cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wnaed drwy gerdded ac olwyno ar ei huchaf ymysg ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig. Roedd y rheini a oedd yn byw yn C1, yr 20% mwyaf difreintiedig o Gymru, yn gwneud 19.3% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno. Mewn cymhariaeth, roedd 16.6% o deithiau'n cael eu gwneud ar droed ac ar olwynion gan bobl sy'n byw yn C5, yr 20% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Mynegai o wyth gwahanol fath o amddifadedd yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cyfeirir at y rhain fel meysydd amddifadedd. Ochr yn ochr â chwintelau cyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, rydym hefyd wedi dadansoddi ymddygiad teithio yn ôl y maes incwm a'r maes mynediad at wasanaethau.

Mae'r maes incwm ("amddifadedd incwm" o hyn ymlaen) yn mesur cyfran y bobl sy'n wynebu amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

Mae'r maes mynediad at wasanaethau ("amddifadedd mynediad at wasanaethau" o hyn ymlaen) yn cofnodi anallu aelwyd i gael gafael ar wasanaethau sy'n angenrheidiol i fyw o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys amddifadedd materol (fel methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (fel methu mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol).

Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael yn adroddiad technegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025.

- Nid oedd tuedd glir yn ôl cwintelau amddifadedd incwm. Preswylwyr a oedd yn byw yn C4 y cwintelau amddifadedd incwm cymharol a wnaeth y nifer lleiaf o deithiau drwy gerdded ac olwyno (14.0%). Y rheini yn C1 (mwyaf difreintiedig o ran incwm) oedd yn gwneud y gyfran fwyaf yn ôl y dull hwn (20.3%).
- Roedd tuedd gryf wrth ystyried amddifadedd mynediad at wasanaethau. Dim ond 10.2% o deithiau preswylwyr â'r mynediad gwaethaf at wasanaethau (C1) a wnaed ganddynt ar droed ac ar olwynion. Cynyddodd hyn wrth i fynediad at wasanaethau wella, wrth i breswylwyr y cwintel mynediad at wasanaethau lleiaf difreintiedig (C5) wneud 23.0% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno.

Cerdded ac olwyno: Cyfran y prif ddull yn ôl amddifadedd mynediad wasanaethau

Ffigur 3: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn drwy gerdded ac olwyno yn ôl cwintelau amddifadedd mynediad at wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau, y pen y flwyddyn, yn ôl y rhai sy'n cerdded ac olwyno, yn ôl cwintelau amddifadedd mynediad at wasanaethau Mynegai

Amddifadedd Lluosog Cymru. Wrth i amddifadedd cymharol mynediad at wasanaethau ostwng, mae cyfran y teithiau cerdded ac olwyno yn cynyddu.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhyw yr ymatebydd

- Nid oedd fawr o wahaniaeth yn y niferoedd sy'n cerdded ac olwyno yn ôl rhyw yr ymatebydd. Roedd y dynion a ymatebodd wedi gwneud 17.7% o'u teithiau drwy gerdded ac olwyno, o'i gymharu ag 17.4% a wnaed gan y menywod a ymatebodd.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl statws anabledd

- Roedd ymatebwyr anabl yn gwneud llai o deithiau y pen y flwyddyn drwy gerdded ac olwyno nag ymatebwyr nad ydynt yn anabl (109.0 a 113.2 yn y drefn honno). Fodd bynnag, roeddent yn gwneud cyfran fwy o'u teithiau drwy'r dull hwn. Gwnaed 19.8% o deithiau a wnaed gan ymatebwyr anabl ac 16.7% o deithiau gan ymatebwyr nad ydynt yn anabl ar droed ac ar olwynion.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl grŵp oedran

- Roedd ymatebwyr 16-24 oed yn gwneud 27.2% o deithiau drwy gerdded ac olwyno, yr uchaf o unrhyw grŵp oedran. Y grŵp oedran 45-64 oedd â'r gyfran isaf o deithiau cerdded ac olwyno, gyda dim ond 13.9% o deithiau'n cael eu gwneud yn y dull hwn.

Teithiau aml-ddull

Pan fydd dau ddull teithio neu fwy yn cael eu defnyddio ar gyfer un daith, gelwir hyn yn daith aml-ddull. Y prif ddull teithio yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf yn y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir yn y daith fel dulliau ychwanegol. Mae rhagor o fanylion am deithiau aml-ddull ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod 10.5% o'r holl deithiau yn rhai aml-ddull (65.4 taith y pen y flwyddyn).

- Roedd cerdded ac olwyno yn rhan reolaidd o deithiau aml-ddull. Defnyddiwyd cerdded ac olwyno fel dull ychwanegol (nad oedd yn brif ddull) o deithio yn 77.1% o'r holl deithiau aml-ddull, ac fel y prif ddull yn 6.6% o deithiau aml-ddull.
- Gwnaed 93.1% o deithiau i safleoedd bysiau drwy gerdded ac olwyno, gyda 91.3% o deithiau o safleoedd bysiau yn cael eu gwneud yn y dull hwn.
- Gwnaed y rhan fwyaf o deithiau i orsafoedd trenau (70.7%) ac o orsafoedd trenau (68.5%) drwy gerdded neu olwyno.
- Gan gyfuno teithiau fel y prif ddull (17.5%) ac fel dull ychwanegol (8.2%) o deithio, defnyddiwyd cerdded ac olwyno mewn 25.6% o deithiau.

Pellter y daith

Pellter y daith drwy gerdded ac olwyno yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sy'n bosibl rhwng y man cychwyn a'r gyrchfan. Nid yw'n cael ei fesur fel llinell syth o'r man cychwyn i'r gyrchfan.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod hyd cymedrig y daith ar draws pob dull o deithio yn 15.5km, gyda hyd canolrifol taith yn 5.8km.

- Roedd teithiau cerdded ac olwyno fel arfer yn fyr. Roedd y pellter teithio cymedrig yn 1.6km o hyd, gyda phellter canolrifol o 1.0km.
- Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn drwy gerdded ac olwyno oedd 175.5km.
- Gan fod y teithiau hyn yn gymharol fyr, dim ond 1.8% o gyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn (9,670.6km) oedd cerdded ac olwyno, er bod ganddynt gyfran dull o 17.5%.
- Roedd teithiau cerdded ac olwyno yn cyfrif am 73.5% o gyfanswm y pellter a deithiwyd drwy ddulliau teithio llesol.
- Roedd y rhan fwyaf o deithiau cerdded ac olwyno o dan 1km o hyd (52.0%). Roedd 44.4% arall rhwng 1km a 5km. Roedd teithiau hirach ar droed ac ar olwynion yn llawer llai cyffredin.
- Dau fesur pwysig o'r defnydd o deithio llesol yw eu cyfran o deithiau o dan filltir (1.61km o hyd) ac o dan bum milltir (8.05km o hyd). Mae'r pellteroedd hyn wedi'u nodi yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol fel pellteroedd rhesymol y gellid eu teithio drwy ddulliau teithio llesol. Roedd teithiau ar droed ac ar olwynion yn cyfrif am 62.8% o deithiau o dan filltir o hyd, a 29.5% o deithiau o dan bum milltir o hyd.

Pwrpas y daith

'Pwrpas y daith' yw'r prif reswm pam yr oedd ymatebydd yn teithio. Yn aml iawn, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ym man cychwyn y daith neu yn y gyrchfan. Os dewisodd ymatebydd 'dychwelyd adref' o'i leoliad fel y rheswm dros ei daith, rydym wedi defnyddio'r pwrpas yn ei leoliad blaenorol fel diben y daith.

Mae teithiau hamdden yn unig, lle mai'r weithred o deithio yw'r gweithgaredd hamdden (er enghraifft, mynd i redeg neu gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae teithio i gyrchfan lle cynhelir gweithgaredd hamdden (er enghraifft, teithio i'r gampfa neu i barc i gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'i gynnwys. Mae rhagor o wybodaeth am y teithiau a gynhwyswyd ar gael yn ein diffiniadau.

- Siopa (27.5%) oedd y pwrpas teithio mwyaf cyffredin ar gyfer teithiau cerdded ac olwyno, yn debyg i'r gyfran gyffredinol (23.1%).
- Teithiau i wneud ymarfer corff neu gymryd rhan mewn chwaraeon oedd pwrpas 18.9% o deithiau cerdded ac olwyno, ac yna 18.8% o deithiau i ddigwyddiadau cymdeithasol neu adloniant.
- Roedd cymudo'n llai cyffredin, gan gyfrif am ddim ond 9.1% o deithiau cerdded ac olwyno o'i gymharu ag 19.3% o deithiau cyffredinol.

Profiad o gerdded ac olwyno

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i bobl a oedd yn cerdded ac yn olwyno am eu profiad ar eu taith ddiweddaraf ar droed ac ar olwynion. Rydym wedi diffinio pobl sy'n cerdded ac olwyno fel unrhyw ymatebwyr sy'n dweud eu bod wedi teithio ar droed neu ar olwynion o leiaf unwaith bob ychydig o fisoedd. Roedd hyn yn cyfateb i tua 78.8% o'r holl ymatebwyr.

Bodlonrwydd cyffredinol ar y daith

- Dywedodd 85.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu taith yn gyffredinol (38.6% yn fodlon iawn a 47.1% yn eithaf bodlon). Dywedodd 6.4% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 2.3% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Roedd 81.2% o'r ymatebwyr anabl yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon, o'i gymharu ag 88.4% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl a oedd yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon
- Roedd ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru, Gogledd Cymru a De-orllewin Cymru yn fwy bodlon ar eu taith yn gyffredinol, gydag 89.9%, 88.9% ac 86.8% yn dweud hynny, yn y drefn honno, o'i gymharu ag ymatebwyr yn Ne-ddwyrain Cymru, sef 83.3%.
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr mewn grwpiau oedran iau yn fwy bodlon ar eu taith gyffredinol o'i gymharu â'r rheini mewn grwpiau oedran hŷn. Ymatebwyr 25-34 oed oedd y mwyaf bodlon o'r holl grwpiau oedran, sef 89.6%, a'r rhai 85 oed neu hŷn oedd y lleiaf bodlon, sef 74.4%.
- Roedd gwahaniaeth o 9.4 pwynt canran rhwng cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gydag C1 yr isaf ar gyfer lefelau bodlonrwydd a gofnodwyd ar 79.8% o'i gymharu ag C3 fel yr uchaf ar 89.2%.

Bodlonrwydd ar ddiogelwch

- Dywedodd 83.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch (33.9% yn fodlon iawn a 49.8% yn eithaf bodlon). Dywedodd 9.2% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 3.3% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.

- Roedd 79.3% o ymatebwyr anabl yn dweud eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu diogelwch o'i gymharu ag 86.0% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl a oedd yn dweud eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon.
- Roedd rhywfaint o wahaniaeth rhwng bodlonrwydd ar ddiogelwch a rhyw gydag 85.0% o'r dynion a ymatebodd yn fodlon o'i gymharu ag 82.9% o'r menywod a ymatebodd.

Bodlonrwydd ar nodweddion teithiau ar droed ac ar olwynion

Dewiswyd pobl sy'n cerdded ac yn olwyno ar hap i ateb cwestiynau ar naill ai bodlonrwydd ar eu taith ddiweddaraf gyda goleuadau a chyflwr y palmant neu'r llwybr troed, neu gyda chroesfannau a'r lle i symud a phasio pobl.

Bodlonrwydd ar oleuadau

- Dywedodd 64.9% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y goleuadau. Dywedodd 23.3% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anfodlon.
- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr nad ydynt yn anabl eu bod yn teimlo'n fodlon ar y goleuadau (67.7%) a dywedodd 58.4% o ymatebwyr anabl eu bod yn teimlo'n fodlon.
- Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng bodlonrwydd ar oleuadau a rhyw gyda 65.7% o'r dynion a ymatebodd yn fodlon o'i gymharu â 64.6% o'r menywod a ymatebodd.

Bodlonrwydd ar gyflwr y palmant neu'r llwybr troed

- Dywedodd 61.1% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar gyflwr y palmant neu'r llwybr troed. Dywedodd 34.6% eu bod yn teimlo'n anfodlon.
- Dywedodd cyfran uwch o ddynion a ymatebodd (64.0%) eu bod yn fodlon ar gyflwr y palmant neu'r llwybr troed o'i gymharu â menywod a ymatebodd (58.4%).
- Roedd 64.8% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn fodlon ar gyflwr y palmant neu'r llwybr troed, o'i gymharu â 51.0% o'r ymatebwyr anabl.

Bodlonrwydd ar fannau croesi

- Dywedodd 79.7% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar fannau croesi. Dywedodd 14.6% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anfodlon.
- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr nad ydynt yn anabl eu bod yn teimlo'n fodlon ar fannau croesi (81.9%). Dywedodd 74.0% o ymatebwyr anabl eu bod yn teimlo'n fodlon.

Bodlonrwydd ar y lle i symud a phasio pobl eraill

- Dywedodd 80.2% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y lle i symud a phasio pobl eraill. Dywedodd 14.7% eu bod yn teimlo'n anfodlon.
- Roedd 82.9% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn fodlon ar y lle i symud a phasio pobl eraill, o'i gymharu â 74.0% o'r ymatebwyr anabl.

Teimlo croeso

- Dywedodd 90.8% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf (43.5% yn fawr iawn a 47.3% i ryw raddau). Dywedodd 5.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt (1.1% yn fawr iawn ac 4.8% i ryw raddau).
- Roedd 87.7% o'r ymatebwyr anabl yn dweud eu bod yn teimlo bod croeso iddynt, o'i gymharu â 92.6% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl.
- Dywedodd menywod a ymatebodd eu bod yn teimlo bod rhywfaint o groeso iddynt (91.3%) o'i gymharu â'r dynion a ymatebodd (90.9%).

Pam oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt

Dywedodd 5.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith ddiweddaraf ar droed ac ar olwynion. Gofynnom i'r defnyddwyr pam eu bod yn teimlo fel hyn.

- Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt oherwydd "beicwyr neu bobl eraill sy'n cerdded ac olwyno" (46.7%) a'r "pethau o'ch cwmpas" (44.7%).
- Dewisodd 35.5% o'r ymatebwyr fod "cerbydau modur" yn gwneud iddynt deimlo nad oedd croeso iddynt.
- Roedd cyfran uwch o'r dynion a ymatebodd wedi dewis "cerbydau modur" (40.0% o'r dynion a ymatebodd o'i gymharu â 32.5% o'r menywod a ymatebodd).
- Dewisodd cyfran uwch o'r menywod a ymatebodd "y pethau o'ch cwmpas" (48.4% o'r menywod a ymatebodd o'i gymharu â 42.1% o'r dynion a ymatebodd).
- Dewisodd tua hanner (50.0% a 52.2%) yr ymatebwyr anabl yr opsiwn "beicwyr neu bobl eraill sy'n cerdded ac yn olwyno" a'r "pethau o'ch cwmpas". Dewiswyd yr opsiynau hyn gan 45.8% a 39.2% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

Ffactorau a fyddai'n annog pobl sy'n cerdded ac olwyno i deithio ar droed neu ar olwynion yn amlach

- Nodwyd nad oedd 81.4% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn bobl sy'n cerdded ac olwyno.
- Y ffactorau mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog mwy o gerdded ac olwyno oedd "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" (37.7%), "llai o rwystrau ar y llwybr, fel cerbydau wedi'u parcio" (31.5%) a "mwy o lwybrau cerdded dymunol" (29.4%).

Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar droed ac ar olwynion

Ffigur 4: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar droed ac ar olwynion, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau fyddai'n annog pobl i gerdded neu olwyno'n amlach. Yr ymateb mwyaf cyffredin gan bobl a oedd yn cerdded ac yn olwyno oedd "llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw'n well" (37.7%). Yr ymatebion mwyaf cyffredin ar gyfer pobl nad oeddent yn teithio ar droed nac ar olwynion oedd "dim un o'r rhain" (29.7%) ac nad oeddent yn gallu cerdded nac olwyno'n amlach (26.6%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Ar sail yr amlder teithio a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr, roedd 4,860 (81.4%) o unigolion yn cael eu nodi'n bobl a oedd yn teithio ar droed ac ar olwynion. Nodwyd bod 1,225 (17.9%) yn bobl nad oeddent yn teithio ar droed nac ar olwynion.

Rhyw yr ymatebwyr

- O'i gymharu â'r cyfrannau cyffredinol, y gwahaniaeth mwyaf rhwng y menywod a'r dynion a ymatebodd oedd bod mwy o ddynion a ymatebodd (41.2%) na menywod a ymatebodd (34.0%) wedi dewis "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well".

Statws anabledd

- Ar gyfer ymatebwyr nad ydynt yn anabl ac ymatebwyr anabl, y ddau ffactor mwyaf poblogaidd oedd "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" a "llai o rwystrau ar y llwybr, fel cerbydau wedi'u parcio". Ar gyfer ymatebwyr anabl, dewisodd 23.0% "mwy o fannau croesi diogel". Dewisodd 31.6% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl "mwy o lwybrau cerdded dymunol".
- Roedd pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl wedi ymateb mewn ffordd debyg i'r cyfrannau cyffredinol, gyda'r ffactorau "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" a "llai o rwystrau ar y llwybr, fel cerbydau wedi'u parcio" yn cael eu dewis fel y ffactorau mwyaf cyffredin a fyddai'n annog rhagor o gerdded ac olwyno.
- Roedd y ddau grŵp yn anghytuno ar eu dewis o'r trydydd opsiwn mwyaf poblogaidd. Roedd "mwy o fannau croesi diogel" yn boblogaidd ymysg ymatebwyr anabl (23.0%). Dewisodd 31.6% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl "mwy o lwybrau cerdded dymunol".

Rhanbarthau

- Roedd "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" a "llai o rwystrau ar y llwybr" yn dal yn boblogaidd ar draws y rhanbarthau fel y prif ffactorau a ddewiswyd. Dewisodd cyfran is o'r ymatebwyr "mwy o lwybrau cerdded dymunol" yng Ngogledd Cymru (23.6%). Y trydydd ffactor mwyaf cyffredin yng Nghanolbarth Cymru oedd "llwybrau sy'n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd" (23.8%).

Grŵp oedran

- Dewiswyd "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" fel un o'r ffactorau mwyaf poblogaidd gan ymatebwyr ym mhob grŵp oedran. Roedd y gyfran yn gostwng wrth i oedran gynyddu. Roedd 44.9% o'r defnyddwyr 25-34 oed wedi dewis yr opsiwn hwn, o'i gymharu ag 19.9% o unigolion 85 oed neu hŷn.
- Dewiswyd "mwy o lwybrau cerdded dymunol" hefyd fel un o'r tri phrif ffactor gan yr holl grwpiau oedran rhwng 16-24 oed (38.8%) a 55-64 (26.9%).
- Roedd y rhan fwyaf o grwpiau oedran hefyd wedi dewis "llai o rwystrau ar y llwybr" yn eu tri phrif ffactor i annog mwy o gerdded ac olwyno, gan amrywio o 37.4% ar gyfer y rheini sy'n 65-74 oed i 27.9% ar gyfer y rheini sy'n 85 neu'n hŷn.
- Roedd "gyrwyr a defnyddwyr llwybrau mwy ystyriol" a "mwy o lefydd i stopio a gorffwys" ymhlith y tri phrif ffactor a ddewiswyd gan ymatebwyr yn y grwpiau oedran 65-74 i 85 oed neu hŷn.

Ffactorau a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn cerdded ac olwyno i deithio ar droed neu ar olwynion yn amlach

- Nid oedd 17.9% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn bobl sy'n cerdded ac olwyno.
- Dywedodd 29.7% o'r rhai nad ydynt yn cerdded nac olwyno na fyddai unrhyw un o'r ffactorau ar y rhestr yn eu hannog i deithio ar droed neu ar olwynion yn amlach. Dywedodd 26.6% arall nad oeddent yn gallu cerdded neu olwyno'n amlach fel ffordd o deithio.
- Dywedodd 14.8% o'r rheini nad ydynt yn cerdded neu'n olwyno ar hyn o bryd y byddai "llwybrau sy'n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd" yn eu hannog i gerdded neu olwyno yn amlach. Dewiswyd "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" gan 14.1% o'r ymatebwyr.

Rhyw yr ymatebydd

- Roedd cyfran y dynion a ymatebodd a ddewisodd "dim un o'r rhain" yn uwch (36.8% o'i gymharu â 23.6% ar gyfer y menywod a ymatebodd).
- Roedd cyfran y menywod a ymatebodd a ddewisodd "dydw i ddim yn gallu cerdded neu olwyno yn amlach" yn uwch (29.7% o'r menywod a ymatebodd o'i gymharu â 24.1% o'r dynion a ymatebodd).

Statws anabledd

- Dywedodd dros hanner (52.5%) yr ymatebwyr anabl "dydw i ddim yn gallu cerdded neu olwyno yn amlach", o'i gymharu ag 14.3% o'r ymatebwyr nad ydynt yn anabl.
- "Dim un o'r rhain" oedd y ffactor a ddewiswyd amlaf gan ymatebwyr nad ydynt yn anabl, sef 35.1%, ac yna "llwybrau sy'n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd" (19.3%) a "mwy o lwybrau cerdded dymunol" (16.6%).
- Yn dilyn hyn, dywedodd 18.7% o'r ymatebwyr anabl "dim un o'r rhain" a dywedodd 10.7% "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well". Dim ond 7.3% a 5.9% o'r ymatebwyr anabl a ddewisodd "llwybrau sy'n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd" a "llwybrau cerdded mwy dymunol" (yn y drefn honno).

Rhanbarthau

- Roedd "dim un o'r rhain" yn dal i fod yn un o'r ffactorau a ddewiswyd yn gyffredin ym mhob rhanbarth, gan amrywio o 25.3% yn Ne-ddwyrain Cymru i 38.0% yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn debyg ar gyfer "dydw i ddim yn gallu cerdded neu olwyno yn amlach", sy'n amrywio o 24.0% yn Ne-ddwyrain Cymru i 32.0% yn Ne-orllewin Cymru.
- Roedd y trydydd ymateb mwyaf cyffredin yn amrywio ar draws y rhanbarthau gyda "mwy o lwybrau cerdded dymunol" (17.8%) yn Ne-ddwyrain Cymru, "llwybrau sy'n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd (17.6%) yn Ne-orllewin Cymru a "llwybrau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well" (15.2% ac 12.5%) yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru yn y drefn honno.

Yn ôl grŵp oedran

- Roedd ymatebwyr ym mhob grŵp oedran ar wahân i 16-24 wedi dewis “dim un o’r rhain” fel un o’r tri phrif ffactor a fyddai’n eu hannog i gerdded neu olwyno, gan amrywio o 21.8% ar gyfer y rheini sy’n 85 oed neu’n hŷn i 36.2% ar gyfer y rheini sy’n 35-44 oed.
- Yn gyffredinol, roedd “dydw i ddim yn gallu cerdded nac olwyno yn amlach” yn cynyddu wrth i grwpiau oedran gynyddu o 9.1% o’r rheini sy’n 25-34 oed i 61.5% o’r rheini sy’n 85 oed neu hŷn.
- I’r rheini sy’n 16-24 oed, roedd y tri phrif ffactor a ddewiswyd yn amrywio gyda 32.5% yn dewis “mwy o lwybrau cerdded dymunol”, 25.8% yn dewis “llwybrau sy’n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd” a 23.2% yn dewis “mwy o fannau croesi diogel”.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- Yn gyffredinol, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd “dim un o’r rhain” wedi cynyddu wrth i amddifadedd cyffredinol leihau. Roedd yn 28.2% yn C1 ac yn 32.4% yn C4 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ond, roedd 25.6% o’r ymatebwyr yn C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi dewis “dim un o’r rhain”.
- Cynyddodd y gyfran a ddewisodd “llwybrau sy’n cysylltu â lle rydw i eisiau mynd” hefyd wrth i amddifadedd cyffredinol ostwng o 13.6% yn C2 i 19.5% yn C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Ar y llaw arall, gostyngodd canran yr ymatebwyr a ddewisodd “dydw i ddim yn gallu cerdded neu olwyno yn amlach” wrth i amddifadedd cyffredinol ostwng o 29.0% yn C1 i 24.1% yn C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.